Amserlen Penderfyniadau

Panel Trwyddedu (Tacsi)

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 5 Hydref 2022

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **4 Hydref 2022**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Farzina Hussain and David Fouweather

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 10/22

Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

Penderfyniad

Gyrrwr DC

Penderfynodd y pwyllgor y dylid gohirio'r gwrandawiad er mwyn i'r ymgeisydd gasglu'r holl ddogfennaeth ofynnol at ei gilydd.

Gyrrwr JR

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog yn ofalus a chyflwyniad y Gyrrwr i'r Panel Trwyddedu. Teimlai'r Panel, o ystyried faint o amser yr oedd y Gyrrwr wedi bod yn meddu ar Drwydded Hurio Preifat a'i brofiad, y dylai fod wedi bod yn fwy ymwybodol o'r rheoliadau a'r gofynion; hefyd nododd y Panel ei rybudd blaenorol. Felly fe wnaeth y Panel atal Trwydded Hurio Preifat y Gyrrwr am 4 wythnos gyda'r gofyniad i'r Gyrrwr sefyll a phasio'r prawf gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gyrrwr MAR

Nid yw'n ofynnol mwyach i'r Gyrrwr fynychu'r gwrandawiad gan fod y drosedd bellach yn cael ei hystyried yn un fân ac felly nid oes angen i'r Panel Trwyddedu ei chlywed.

Gyrrwr MSC

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog yn ofalus a chamau lliniaru'r gyrrwr. Cytunodd y Panel Trwyddedu fod y gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd ar yr amod ei fod yn cwblhau cwrs Pass Plus.

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.
Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
Amserlen Weithredu: Ar unwaith